| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Iaith** |
| **DYDDIAD** | **30 Ionawr, 2024** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Adran Tai ac Eiddo ar Weithrediad y Polisi Iaith a Gweithgareddau Hybu'r Gymraeg** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg** |
| **AWDUR** | **Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo** |

**1. Cefndir a chyd-destun**

1.1. Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Tai ac Eiddo i'r Polisi Iaith.

1.2. Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn cynnwys cymysgedd o wasanaethau rheng-flaen (megis Digartrefedd, Ffoaduriaid, Cyflenwad Tai), corfforaethol (megis Stadau, Diogelwch Eiddo, Swyddfeydd a Glanhau) a masnachol (Difa Pla).

1.3. Golyga hyn bod yr Adran yn ymdrin â nifer o gwsmeriaid a budd-ddeiliaid, sy'n cynnwys staff Cyngor Gwynedd, busnesau a thrigolion Gwynedd.

1.4. Yn sgil hynny, credwn ei bod yn hynod bwysig gallu cynnig ein gwasanaethau yn ddwyieithog, a pharchu dewis iaith y cwsmer.

1.5. Mae natur sensitif rhai o'r achosion y mae'r adran yn ei wynebu yn dangos pwysigrwydd gweithredu yn y Gymraeg i'n defnyddwyr gwasanaeth.

1.6. Er enghraifft, mae staff y Gwasanaeth Digartrefedd yn ymdrin ag unigolion a theuluoedd sydd eisoes mewn sefyllfa o straen eithriadol, ac mae ymdrin â nhw mewn dull sensitif a phriodol yn allweddol. Rhan amlwg a phwysig o hynny yw siarad gyda'r unigolyn yn yr iaith y maent yn ei dewis.

1.7. Mae staff yr Uned Grantiau Tai yn ymdrin ag oedolion a phlant anabl wrth gynnig cymorth iddynt allu byw yn eu cartref trwy osod cyfarpar megis rampiau, neu wneud addasiadau i dai megis estyniadau neu ystafelloedd gwlyb. Mae'n eithriadol o bwysig gallu cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg wrth ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn hefyd.

1.8. Mae'r Adran hefyd yn ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth sy'n dod i Wynedd o'r tu hwnt i Gymru a Phrydain, ac sy'n siarad ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg. Mae'r Uned Ailsefydlu Ffoaduriaid wedi bod yn rhan allweddol o ymateb y Cyngor i'r sefyllfa yn Wcráin, gan dderbyn, cefnogi a lletya ffoaduriaid yng Ngwynedd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

1.9. Mae’r Uned yn gweithio’n agos gydag asiantaethau megis cyfieithwyr er mwyn cefnogi ffoaduriaid a ddaw i Wynedd i geisio lloches. Yn gyffredinol, mae’r unigolion hyn yn awyddus i wneud cyfraniad ystyrlon i’r gymdeithas sy’n eu derbyn, gyda nifer yn dysgu Cymraeg wrth ymsefydlu ac yn plethu i’w cymunedau newydd yn dda.

## 2. Ymateb i’r materion yr hoffai’r aelodau eu trafod

3.1 Ymatebir i’r materion ar y tudalennau nesaf

| Cwestiwn 1. Hybu a hyrwyddo |
| --- |
| Sut mae eich adran yn mynd y tu hwnt i gynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith sirol (pa weithgareddau a phrosiectau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddwytha sydd yn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned)? |

Yn gyffredinol, mae'r Adran yn rhoi pwys mawr ar weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, nid yn unig oherwydd ein teimlad o falchder a pharch tuag at yr iaith a'r hyn y mae'n ei olygu i'r Cyngor ac i bobl Gwynedd, ond hefyd oherwydd ein bod yn ymdrin ag unigolion sydd yn aml mewn sefyllfaoedd bregus ac sy'n dod atom pan nad oes ganddynt unlle arall i droi, ac rydym yn llwyr sylweddoli y gall defnyddio'r iaith y mae rhywun fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio wneud môr o wahaniaeth i brofiad unigolion sy'n profi'r fath sefyllfa.

**Polisi Gosod Tai Cyffredin**

Mae Cynllun Hybu'r Gymraeg yn nodi bod symudedd a mudo yn un o'r prif heriau i'r Gymraeg yng Ngwynedd. Credwn fod ein Polisi Gosod Tai Cyffredin, sy'n rhoi blaenoriaeth am dŷ cymdeithasol i unigolion sydd â chysylltiad â Gwynedd, yn cyfrannu at y nod o sicrhau bod pobl leol yn gallu byw ac aros yn eu cymunedau. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod 97% o osodiadau tai cymdeithasol Gwynedd wedi mynd i berson â chysylltiad â Gwynedd rhwng Tachwedd 2022 a 2023. Ymhellach, mae oddeutu 55% o osodiadau yn mynd i unigolion neu deuluoedd sydd â chysylltiad â'r gymuned leol - cam sy'n mynd y filltir ychwanegol i'r hyn sy'n ofynnol ohonom fel Cyngor i sicrhau cartref i bobl leol.

**Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2023, Boduan**

Fel rhan o'r ddarpariaeth ar Stondin y Cyngor yn Eisteddfod Genedlaethol Boduan fis Awst 2022, cynhaliodd yr Adran ddiwrnod o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar thema 'Gwynedd Glyd' (Cynllun y Cyngor). Codwyd ymwybyddiaeth am y cynlluniau tai sydd gan y Cyngor i fynd i'r afael â'r argyfwng tai yn y sir, a'r cyfleoedd sydd ar gael i helpu pobl Gwynedd fyw yn eu cymuned. Roedd hefyd yn gyfle i dynnu sylw at bynciau o bwys y mae'r Adran yn gyfrifol amdanynt megis digartrefedd, tai gwag a thlodi tanwydd. Yn yr Eisteddfod, lansiwyd addasiad cyffrous i'r cynllun Grantiau Tai Gwag i Brynwyr Tro Cyntaf, sy'n golygu bellach bod tai gwag fu'n arfer bod yn ail gartrefi yn gymwys ar gyfer y grant.

**Fforwm ac Adroddiad Chwarterol y Dynodiadau Iaith**

Mae'r Adran yn mynychu a chymryd rhan actif yng ngweithgarwch y Fforwm Dynodiadau Iaith, ac yn credu ei fod yn gyfrwng pwysig a defnyddiol i godi materion, trafod datrysiadau a rhannu arferion da gyda chydweithwyr mewn adrannau eraill.

Rydym hefyd yn ddiolchgar o dderbyn adroddiad chwarterol yn nodi perfformiad yr Adran mewn perthynas â'r Dynodiadau Iaith ac yn ei ddefnyddio fel dull o fonitro niferoedd sydd wedi derbyn asesiad neu hyfforddiant iaith ac i hyrwyddo cyfleoedd dysgu a datblygu'r Gymraeg ymysg ein staff.

**Newyddlen Adran**

Mae newyddlen yr Adran Tai ac Eiddo newydd ddathlu ei ben-blwydd yn flwydd oed ym mis Rhagfyr, ac ynddi rhennir materion o ddiddordeb gyda staff, ynghyd â rhoi cyfle i staff o amryw wasanaethau'r Adran ddod i adnabod ei gilydd. Mae'n rhoi lle hefyd i dynnu sylw staff at gyhoeddiadau corfforaethol pwysig megis y newidiadau diweddar ym mholisi iaith y Cyngor a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant megis gloywi iaith.

**Prosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai**

Mae Cynllun Gweithredu Tai'r Adran, Cynllun o dros 30 o brosiectau dros gyfnod o 6 blynedd, yn amlinellu ein hamcanion wrth fynd i'r afael ag anghenion tai pobl Gwynedd. Bydd y Cynllun o fudd mewn sawl maes allweddol, ac un o'r rheiny yw'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg. Bydd prosiectau megis y rhai a enwir isod yn rhoi cyfleoedd i drigolion Gwynedd gael mynediad at gartref addas a fforddiadwy.

Grant ar gyfer elfennau trigiannol mewn cynlluniau adfywio cymunedol

Un o'r prosiectau diweddaraf i lansio yw cynllun 3g y Cynllun Gweithredu Tai. Mae'r cynllun hwn yn darparu cymorth ariannol ar ffurf grant i gynlluniau a arweinir gan y gymuned i greu unedau byw i bobl leol. Mae dau grŵp eisoes wedi mynegi diddordeb a'r ffurflenni ymgeisio wedi'u rhannu. Rydym eisoes wedi derbyn ffurflenni yn ôl gan un grŵp ac mae'r wybodaeth yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Ein gobaith trwy ddarparu'r grant a chefnogi cymunedau trwy'r dull hwn yw y bydd rhagor o gyfleoedd ar gael i bobl fyw yn eu cymuned.

| Cynllun | Disgrifiad | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| **Datblygu tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai (Tŷ Gwynedd)** | Datblygu ein tai ein hunain a fydd yn cynyddu'r stoc o dai yn y cymunedau hynny lle mae'r galw yn bodoli ar gyfer prynu neu rentu ar rent canolraddol. | Rydym yn bwriadu gosod amod fel bod rhaid i unrhyw berchennog fod yn berson lleol. |
| **Cynllun Prynu i Osod** | Defnyddio stoc barod o dai fyddai'n addas ar gyfer cartrefu pobl leol, tra'n ystyried prynu tai a'u gosod i bobl leol ar rent canolraddol. | Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i bobl leol wrth osod y tai hyn |
| **Gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn-"dai Cyngor"** | Ystyried bod yn fwy heriol gyda cheisiadau i dynnu 'amod person lleol' oddi ar gyn-dai Cyngor a glynu at bwrpas gwreiddiol cymalau o'r fath, Ni fyddwn yn codi'r amod oni bai fod amgylchiadau eithriadol o anarferol. | Bwriedir mabwysiadu polisi mewnol sy'n gwarchod yr amod hon i'r dyfodol |
| **Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag** | Ymestyn y cynllun blaenorol, sydd wedi helpu dros 90 o brynwyr tro cyntaf i adnewyddu tai gweigion a thrwy hynny wedi dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd i bobl leol. | |
| **Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf** | Ymestyn y cyfnod eithrio o dalu treth Cyngor ar dai gwag (prif neu unig gartref) gan roi blwyddyn ychwanegol i brynwyr tro cyntaf gyflawni gwaith adfer hanfodol cyn y gellir meddiannu'r tŷ. | |
| **Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol** | Defnyddio rhai safleoedd datblygu sydd eisoes yn ein perchnogaeth i ddechrau ar ein cynlluniau mewn rhai ardaloedd lle mae'r angen gan drigolion lleol yn glir. Ond os am barhau wedi hynny, byddwn angen bod yn barod i ymateb yn gyflym i brynu tir adeiladu pan fydd y cyfle'n codi yn y lleoliadau cywir. | |

Nodwyd yn ein Hasesiad Effaith Cydraddoldeb (dyddiedig 13 Mehefin, 2023) ar gyfer y Cynllun hwn y byddai'n cael effaith bositif ar y Gymraeg:
*"Amcangyfrifir fod 63% o brynwyr wedi eu prisio allan o'r farchnad leol. Gall cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy, yn ogystal â'r pecynnau cefnogaeth arfaethedig o ran benthyciadau a rhyddhad trethi, olygu fod mwy o bobl leol yn dewis / gallu aros yng Ngwynedd."*

**Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg a Pheilot Dwyfor**

Ym mis Tachwedd, 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bwriad i gynnal cynllun peilot i fynd i'r afael â'r broblem dai yn ardal Dwyfor. Rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r Llywodraeth ers misoedd ar amryw brosiectau sydd naill ai'n cryfhau'r rheiny sydd eisoes yn ein Cynllun Gweithredu Tai (megis y Cynllun Prynu Cartref) neu sy'n gynlluniau newydd sydd i'w treialu yn ardal y Peilot.

**Systemau a Thechnoleg**

Mae'r Adran yn gwneud defnydd helaeth o systemau amrywiol, sy'n cynnwys systemau i ddal a dadansoddi gwybodaeth am eiddo'r Cyngor megis cynnal a chadw, Clefyd y Lleng Filwyr a defnydd a gwariant ynni; ac yn y maes tai i gadw cofrestrau tai a gwybodaeth am sefyllfa ddigartrefedd y Sir, a systemau y mae'r Uned Gorfodaeth Tai a'r Uned Grantiau a Phrosiectau Tai yn ei defnyddio i hwyluso eu gwaith hwythau.

Rydym yn y broses o weithio gyda chyflenwr allanol ar greu a mewnosod system newydd ar gyfer digartrefedd ac opsiynau tai. Rhan bwysig a chreiddiol o'r broses oedd sicrhau bod posib defnyddio'r systemau yn Gymraeg, ac mae'n braf dweud ein bod wedi llwyddo yn hynny o beth trwy sicrhau bod y gallu gan y cyflenwr i ddarparu rhyngwyneb Cymraeg. Credwn fod hynny'n bwysig gan ei fod yn caniatáu i ni gynnal ein gweithrediadau mewnol yn Gymraeg heb orfod cyfieithu, dehongli neu rannu gwybodaeth yn Saesneg. Hefyd, gobeithiwn y bydd yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ein partneriaid tai fydd yn defnyddio'r system yn ogystal.

Er bod nifer o'r systemau eraill yn cael eu darparu yn Saesneg (oherwydd iaith y cyflenwyr), mae'r gallu gennym i greu neu addasu elfennau o fewn rhai o'r systemau hyn, a chreu a chynhyrchu ein hadroddiadau ein hunain, a wneir naill ai yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog.

**Cyfathrebu**

Rydym wedi cydweithio a chefnogi ein partneriaid tai yn ddiweddar gyda deunydd cyfathrebu dwyieithog, sydd wedi arwain at sicrhau bod arwyddion, deunydd hyrwyddo a gohebiaeth yn rhoi lle blaenllaw i'r Gymraeg.

**Cwestiwn 2. Materion Polisi a Safonau**

i. Sgiliau iaith staff – nifer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn yr adran (data diweddaraf Dynodiadau Iaith).
ii. Rhwystrau - oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg (h.y. gweithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg)?
iii. Canmoliaeth a Chwynion – rhowch wybodaeth am unrhyw ganmoliaeth neu gwynion mae'r adran wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn am wasanaethau Cymraeg/dwyieithog.

**i) Sgiliau Iaith Gymraeg ein gweithlu**

Rhoddwn bwys mawr ar sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Pholisi Iaith y Cyngor, a'n gallu i gynnig gwasanaeth Cymraeg i'n defnyddwyr gwasanaeth, boed fewnol neu allanol.

Yn ôl yr Adroddiad Chwarterol Dynodiadau Iaith diweddaraf, mae **96%** o'n staff yn cyrraedd neu basio Dynodiadau Iaith eu swyddi. O'r 96% hynny, mae gan **60%** ohonynt sgiliau uwch na'r gofynion iaith sydd ynghlwm â'u swyddi.

Hyd at 05/12/2023, mae **99%** o staff yr Adran wedi derbyn rhyw fath o asesiad (hunanasesiad neu asesiad rheolwr llinell) gyda dim ond 2 yn weddill heb eu hasesu o gwbl. Gwyddwn erbyn hyn bod un o'r ddau yma wedi gadael y Cyngor, ac mae asesiad rheolwr llinell ar y gweill i'r llall.

Mae **85%** wedi cwblhau hunanasesiad (sef yr hyn rydym yn ei ddymuno er mwyn cael y darlun gorau o sgiliau iaith ein staff). Mae hyn yn gynnydd o 6% dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil anogaeth barhaus i staff gwblhau'r hunanasesiad. Mae'r rheiny sydd wedi derbyn asesiad rheolwr llinell yn unig yn staff rheng flaen gan fwyaf, megis glanhawyr swyddfa, ac rydym yn cydnabod y gall gymryd peth amser nes cwblheir hunanasesiad oherwydd natur eu gwaith.

O ystyried bod yr Adran wedi tyfu dros y flwyddyn ddiwethaf, ymfalchïwn yn yr ystadegau hyn, ac ystyriwn ei fod yn brawf o ymrwymiad yr Adran tuag at y Gymraeg a'i phenderfynoldeb i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i bobl Gwynedd.

**ii) Rhwystrau**

Yn gyffredinol, mae ein gallu i gynnig gwasanaeth llawn yn Gymraeg yn gadarn ac ni theimlwn fod rhwystrau yn hyn o beth. Mae gweinyddiaeth fewnol yr Adran yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg, ac rydym yn ymfalchïo yn ein gallu i gynnig cymorth i'n defnyddwyr gwasanaeth, nifer ohonynt yn rhai o unigolion mwyaf bregus ein cymdeithas, trwy gyfrwng y Gymraeg. Anogwn aelodau o staff sydd ychydig yn fwy dihyder yn eu sgiliau Cymraeg neu sy'n dymuno/angen gwella eu sgiliau iaith i chwilio am gyfleoedd i ddysgu/datblygu eu sgiliau. Credwn fod lle i ddathlu bod aelodau o staff yr adran yn chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i wella a/neu gadw safon eu hiaith ac yn cymryd perchnogaeth dros hynny er budd ein defnyddwyr gwasanaeth.

<u>Cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol</u>

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad diwethaf, er ein bod fel Adran yn llwyddo i gynnig ein gwasanaethau i gyd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, mae'r darlun yn dra gwahanol wrth edrych y tu allan i'r Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol ar y cyfan yn uniaith Saesneg, ac er bod cyfieithu a deunydd Cymraeg ar gael mewn rhai ohonynt, mae hynny'n gallu bod yn llafurus a chreu teimlad bod yr un sy'n gofyn am gyfieithu yn creu trafferth. Gall hyn droi'n rhwystr pan mae'n dod i gynnig gwasanaeth Cymraeg i'n defnyddwyr Gwasanaeth.

**iii) Canmoliaeth a Chwynion**

O ran canmoliaeth, er nad ydym wedi derbyn gohebiaeth yn canmol darpariaeth gwasanaeth Gymraeg/dwyieithog yr Adran yn benodol, mae swyddogion yn derbyn canmoliaeth yn rheolaidd gan y llu aelodau o'r cyhoedd yr ydym yn ymdrin â nhw bob dydd yn canmol y gwasanaeth a ddarperir yn gyffredinol, sy'n cynnwys cyfathrebu ac ystyriwn fod ein gallu i gynnig gwasanaeth Cymraeg/dwyieithog llawn yn rhan greiddiol o hynny.

O ran cwynion, rydym yn falch o adrodd nad yw'r adran wedi derbyn cwyn yn ymwneud â darpariaeth gwasanaeth Cymraeg/dwyieithog.

| **Cwestiwn 3. Cyfleoedd Datblygu** |
|---|
| Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill? |
| **Cyffredinol**<br>Fel sydd wedi'i fynegi eisoes, teimlwn fod y Fforwm Dynodiadau Iaith yn gyfrwng da iawn ar gyfer rhannu arferion da ar draws y Cyngor, ynghyd â chael arbenigwyr a phencampwyr "o gwmpas y bwrdd" i drafod rhwystrau a chyfleoedd. Mae hefyd yn rhoi proc i ni fel Adran gymryd cam yn ôl bob yn hyn a hyn i weld a oes unrhyw beth angen sylw neu ddathlu unrhyw lwyddiannau hefyd. Yn yr un modd gwelwn fod yr Adroddiad Chwarterol yn hynod o fuddiol fel modd o roi trosolwg dros ein hadran.<br><br>O fod yn gweithio gartref neu'n hybrid ers cyfnod y pandemig, mae wedi dod i'r amlwg bod staff yn colli gweld ei gilydd yn y swyddfa a chael y cyfle i sgwrsio'n anffurfiol gyda'r naill a'r llall. Credwn fod hynny'n berthnasol hyd yn oed mwy yn achos staff sy'n dysgu neu ddatblygu eu Cymraeg. Gyda dyfodiad y polisi Gweithio i'r Dyfodol newydd, rhagwelwn y bydd hynny'n siŵr o helpu'r sefyllfa wrth i fwy a mwy o staff fod yn y swyddfa a gweld ei gilydd. Ond credwn fod lle i edrych ar sut gellid sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu hadnabod a'u cymryd i ddod â charfannau o staff sy'n dysgu ac eisiau datblygu eu Cymraeg yn fwy anffurfiol at ei gilydd.<br><br>**Y maes tai ac eiddo**<br>Mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth i ddarparu llety â chefnogaeth, byddwn yn gosod amod bod rhaid i'r darparwyr gwasanaeth/cefnogaeth fod yn gallu siarad Cymraeg. Enghraifft o hyn yw'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Tŷ Adferiad, Porthmadog, 137 Stryd Fawr Bangor, a 35 Ffordd y Coleg, Bangor<br><br>Unwaith eto, nodwn ein teimlad y dylid datblygu rhagor o hyfforddiant penodol yn y Gymraeg yn y maes tai – mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant yn digwydd yn y Saesneg, ac er nad yw hynny'n rhwystro nac yn atal ein gallu i weithredu, byddai'n dda gallu derbyn yr hyfforddiant yn y Gymraeg, neu'n ddwyieithog o leiaf. |